

## Beth fydd yr ysgol yn ei wneud

Bydd yr ysgol bob amser yn ceisio ymdrin â phryderon a godwyd gan rieni mewn modd proffesiynol a phriodol ac yn deall nad yw rhieni yn sylweddoli bob amser pan fyddant wedi defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn amhriodol. Felly, fel cam cyntaf, mae'r ysgol fel arfer yn trafod y mater gyda'r rhiant i geisio ei ddatrys ac i ofyn bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei thynnu oddi ar y safle rhwydweithio cymdeithasol dan sylw. Os yw'r rhiant yn gwrthod gwneud hyn ac yn parhau i ddefnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol mewn modd y mae'r ysgol yn ei ystyried yn amhriodol, bydd yr ysgol yn ystyried cymryd y camau canlynol:

- Cymryd cyngor cyfreithiol a/neu achos cyfreithiol pan fo'r wybodaeth a roddir yn ddifennol mewn unrhyw ffordd, neu os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny;
- Amlinellu pryderon yr ysgol i chi yn ysgrifenedig, gan roi rhybudd i chi a gofyn bod y deunydd dan sylw yn cael ei dynnu;
- Cysylltu â'r Heddlu pan fo'r ysgol yn teimlo ei bod yn briodol - er enghraifft, os yw'n ystyried bod trosedd (megis aflonyddu) wedi cael ei gyflawni; neu mewn achosion lle mae elfen niweidiol i'r deunydd, lle ystyrir ei fod yn ofnadwy o anllad neu'n bygwth trais;
- Os bydd y sylwadau amhriodol wedi cael eu gwneud ar wefan yr ysgol neu fforwm ar-lein, gall yr ysgol gymryd camau i rwystro neu gyfyngu ar fynediad yr unigolyn hwnnw i'r wefan neu'r fforwm hwnnw;
- Cysylltu â darparwr y safle rhwydweithio cymdeithasol i gwyno am gynnwys y safle a gofyn am gael gwared ar y wybodaeth;
- Cymryd camau cyfreithiol eraill yn erbyn yr unigolyn.

## Oes gennych chi gŵyn?

### Cam 1

Gellir datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gyflym drwy siarad gydag athro dosbarth eich plentyn neu'r Pennaeth os byddai'n well gennych.

\*Gall fod yn anodd peidio â chynhyrfu pan fyddwch yn teimlo bod gennych gŵyn ddilys, ond dylid osgoi caniatáu i ddieter a rhwystredigaeth effeithio ar y ffordd rydych yn rhyngweithio gyda staff yr ysgol. Os byddwch yn mynd yn flin, bygythiol neu sarhaus, gofynnir i chi adael yr adeilad.

### Cam 2

Os byddwch yn bryderus o hyd yn dilyn eich cyfarfod, gallwch wneud cwyn ffurfiol i'r Pennaeth. Dylid gwneud hyn yn ysgrifenedig yn unol â pholisi cwynion yr ysgol. Bydd y Pennaeth yn cysylltu â chi i drafod y broblem a chewch eich gwahodd i gyfarfod i drafod hyn ymhellach fel arfer. Yna, bydd y Pennaeth yn cynnal ymchwiliad llawn o'r gŵyn a gall gyfweled unrhyw aelod o staff neu ddisgyblion dan sylw. Byddwch yn cael ymateb ysgrifenedig i'ch cwyn.

### Cam 3

Os nad oeddech yn fodlon ag ymchwiliad y Pennaeth, efallai y byddwch am wneud cwyn ffurfiol i'r corff llywodraethu. Dylech ysgrifennu at Gadeirydd y Llywodraethwyr yn yr ysgol. Bydd ef neu hi yn ceisio gweld a oes ffordd ymlaen. Os na fydd ef neu hi yn gallu datrys y mater, bydd eich cwyn wedyn yn cael ei chlywed gan bwyllgor o dri llywodraethwr a elwir y Pwyllgor Adolygu Cwynion. Ni fydd ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am yr achos ac felly byddant yn gallu gwneud asesiad ffres, diduedd. Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y pwyllgor, ynghyd â chyfaill neu berthynas os ydych yn dymuno, ac i roi eich ochr y mater. Bydd y Pennaeth hefyd yn mynychu i roi ei farn/barn. Mae rhagor o wybodaeth am sut y cynhelir y cyfarfodydd hyn yn weithdrefn gwyno'r ysgol.

## ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT

# Canllawiau Rhwydweithio Cymdeithasol i Ofalwyr a Rhieni

Bydd y daflen hon yn cynnig arweiniad i rieni a gofalwyr ar y defnydd priodol o gyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â chwynion am ysgolion.



[www.sirdinbych.gov.uk](http://www.sirdinbych.gov.uk)  
[www.denbighshire.gov.uk](http://www.denbighshire.gov.uk)

## Beth yw rhwydweithio cymdeithasol?

Mae rhwydweithio cymdeithasol yn llwyfan i feithrin rhwydweithiau cymdeithasol neu gysylltiadau cymdeithasol ymhlith pobl sy'n rhannu diddordebau, gweithgareddau, cefndiroedd neu gysylltiadau bywyd go iawn. Mae'r dulliau cyfathrebu ar-lein a chyfryngau cymdeithasol hyn yn cynnwys meddalwedd, ceisiadau, e-bost a gwefannau, sy'n galluogi i ddefnyddwyr ryngweithio, creu a chyfnewid gwybodaeth ar-lein.

Gall y cynnwys hwn gynnwys testun, lluniau neu fideo a chyfuniad o'r tri weithiau.

Yn gynyddol, ceir mynediad at y safleoedd a'r gwasanaethau hyn drwy ddyfeisiau symudol yn hytrach na chyfrifiaduron pen desg neu liniadur.

### Nod y canllawiau hyn yw:

- Annog safleoedd rhwydweithio cymdeithasol i gael eu defnyddio mewn ffordd fuddiol a chadarnhaol gan rieni;
- Diogelu disgyblion, staff ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r ysgol rhag effeithiau negyddol safleoedd rhwydweithio cymdeithasol;
- Diogelu enw da'r ysgol rhag camdriniaeth anwarantedig ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol;
- Egluro beth mae'r ysgol yn ystyried i fod yn ddefnydd priodol ac amhriodol o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol gan rieni/gofalwyr;
- Nodi'r gweithdrefnau y bydd yr ysgol yn eu dilyn pan fydd yn ystyried bod rhieni wedi defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn amhriodol neu'n anghyfreithlon ar draul yr ysgol, ei staff neu ei disgyblion, ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r ysgol;
- Nodi'r camau gweithredu y bydd yr ysgol yn ystyried eu cymryd os bydd rhieni'n gwneud defnydd amhriodol o safleoedd rhwydweithio

## Defnydd priodol o gyfryngau cymdeithasol

Mae gan safleoedd rhwydweithio cymdeithasol y potensial i wella dysgu a chyflawniad disgyblion a galluogi i rieni gael mynediad at wybodaeth am yr ysgol a rhoi adborth yn effeithlon ac yn hawdd. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cydnabod y bydd gan lawer o rieni ac aelodau eraill o'r teulu gyfrifon rhwydweithio cymdeithasol personol, a gallent ei defnyddio i drafod/rhannu safbwyntiau am faterion ysgol gyda ffrindiau a phobl y maent yn eu hadnabod. Fel canllaw, dylai unigolion ystyried y canlynol cyn rhoi unrhyw wybodaeth ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol am yr ysgol, ei staff, ei disgyblion, neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r ysgol:

- Ai'r safle rhwydweithio cymdeithasol yw'r sianel priodol i godi pryderon, rhoi'r adborth hwn neu fynegi'r safbwyntiau hyn?
- A fyddai trafodaethau preifat a chyfrinachol gyda'r ysgol yn fwy priodol? E.e. os oes honiadau difrifol yn cael eu gwneud/pryderon yn cael eu codi. Ni ddylid defnyddio cyfryngau cymdeithasol/safleoedd ar y rhyngwyd i enwi unigolion a gwneud sylwadau difriol am y bobl hynny. Cysylltwch â'r ysgol i drafod unrhyw bryderon sydd gennych a dilyn y polisi cwynion;
- A yw sylwadau o'r fath yn debygol o achosi niwed emosiynol neu chwalu enw da unigolion na fyddai'n cael ei gyfiawnhau, yn enwedig os nad yw'r ysgol wedi cael cyfle i ymchwilio i gŵyn eto?
- Yr effaith ar enw da y gall rhoi deunydd o'r fath ei gael ar yr ysgol, unrhyw niwed andwyol y gall yr ysgol ddiodeff yn sgil yr wybodaeth; a'r effaith y gallai gwybodaeth o'r fath ei chael.

## Defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol

Er y gall safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ymddangos i fod y ffordd gyflymaf a hawsaf i fynegi rhwystredigaeth neu bryderon am yr ysgol (a'r rhai sy'n gysylltiedig â hi), nid yw'n briodol gwneud hynny fel arfer. Mae sianeli eraill, megis trafodaeth breifat a chyfrinachol gyda'r ysgol, neu ddefnyddio proses gwyno ffurfiol yr ysgol, yn llawer mwy addas.

Mae'r ysgol yn ystyried yr enghreifftiau canlynol i fod yn ddefnyddiau amhriodol o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. (Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ac enghreifftiau yn unig sydd yma):

- Gwneud honiadau am staff neu ddisgyblion yn yr ysgol;
- Gwneud cwynion am yr ysgol neu staff yr ysgol;
- Gwneud datganiadau difenwol am yr ysgol neu staff yr ysgol;
- Rhoi sylwadau negyddol neu sarhaus am ddisgyblion penodol neu staff yr ysgol;
- Rhoi sylwadau hiliol neu homoffobig;
- Rhoi sylwadau sy'n bygwth trais.

Dylai rhieni hefyd sicrhau nad yw eu plant yn defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol neu'r rhyngwyd mewn modd amhriodol. Disgwylir bod rhieni a gofalwyr yn egluro i'w plant beth sy'n dderbyniol i'w roi ar-lein. Disgwylir hefyd i rieni a gofalwyr fonitro gweithgarwch eu plant ar-lein, gan gynnwys eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol.